# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**

Dyddiad ac Amser

**2.00 y.h., DYDD MAWRTH, 17EG GORFFENNAF, 2018**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda - Pencadlys Caernarfon**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 10 Gorffennaf 2018)

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

## AELODAETH (3)

Y Cynghorwyr

Eryl Jones-Williams (Cadeirydd)

Edgar Wyn Owen

Angela Russell

Annwen Daniels (Eilydd)

## Aelod Lleol

Y Cynghorydd

Steve Collings

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO 5 - 6

Star Kebabs, Stryd Fawr, Bangor

I ystyried y cais

**TREFN MEWN GWRANDAWIADAU I WYRO TRWYDDED**

1. Adroddiad ysgrifenedig gan yr Adain Trwyddedu gydag argymhelliad.

2. Gall aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.

3. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.

4 Gall yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar ei gais ac yna galw tystion

5. Gall aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd

6. Gwahoddiad i bob ymgynghorai gefnogi sylwadau ysgrifenedig

7. Gall aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai.

8. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd, gall cynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.

Atgoffir pawb o'r pedwar egwyddor o'r Ddeddf Trwyddedu 2003 fydd angen ei ystyried, sef:

1. **Rhwystro Trosedd ac Anrhefn;**
2. **Diogelwch y Cyhoedd;**
3. **Rhwystro Niwsans Cyhoeddus; ac**
4. **Amddiffyn plant rhag niwed:**

| PWYLLGOR: | IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG |
|---|---|
| DYDDIAD: | 17 GORFFENNAF 2018 |
| TEITL: | CAIS AM AMRYWIO TRWYDDED EIDDO – STAR KEBAB, 323 STRYD FAWR BANGOR |
| PWRPAS: | ER PENDERFYNIAD |
| AWDUR: | PENNAETH AMGYLCHEDD |

## CAIS A DDERBYNIWYD

Atodir cais am amrywiad o drwydded eiddo gan Mr Mehmet Kabadayi ar gyfer Star Kebab, 323 Stryd Fawr Bangor, LL57 1YA.

Bwriad yr ymgeisydd yw gofyn am newid amodau'r drwydded mewn perthynas â goruchwylwyr drysau a gytunwyd gan y Pwyllgor hwn yn dilyn adolygiad o'r Drwydded yn 2012 gan Heddlu Gogledd Cymru. Fe drwyddedir yr eiddo ar gyfer gwerthu lluniaeth hwyr y nos, 7 diwrnod yr wythnos. Ar hyn o bryd, mae'n amodol fod Goruchwyliwr drysau sydd yn gofrestredig gyda'r Awdurdod Diwydiant Diogelwch yn bresennol ar yr eiddo o 23:00 ar nos Iau, Gwener a Sadwrn hyd at amser cau'r eiddo; yn ogystal ar nos Sul cyn dydd Llun gŵyl y banc.
Gofynnir am yr hawl i beidio cyflogi goruchwylwyr drysau o gwbl ar nos Iau; a goruchwyliwr i weithredu o 00:00 ar nos Wener a Sadwrn a nos Sul cyn gwyl y banc.
Fe nodir hefyd fod hanner awr ychwanegol wedi ei nodi ar yr oriau gweithgaredd trwyddedig ac oriau cau ar nos Iau. Nid oes eglurhad na chyfeiriad i hyn yn rhan 3 nac yn rhan M o'r cais. Gweler gopi llawn o'r cais a'r drwydded bresennol yn yr atodiad i'r adroddiad hwn.

## HANES CYDYMFFURFIAD – AC ADOLYGIAD YR HEDDLU O'R DRWYDDED EIDDO

Yn Ionawr 2012, fe fu i Heddlu Gogledd Cymru gyflwyno tystiolaeth i'r Pwyllgor hwn oedd yn ddigonol i gyfiawnhau caniatáu adolygiad o'r drwydded eiddo gydag amodau ychwanegol mewn perthynas â Theledu Cylch Cyfyng, a goruchwylwyr drysau. Fe gefnogodd yr Heddlu eu cais am adolygiad drwy gyflwyno tystiolaeth o 18 o achosion o drosedd ac anrhefn yn gysylltiedig â'r eiddo yn hwyr y nos.
Yn Medi 2012 fe fu i'r Heddlu erlyn deilydd y drwydded am weithredu tu hwnt i oriau gweithgareddau trwyddedig sydd ar y drwydded.
Ymhellach i hyn, mewn cais i amrywio'r drwydded ym Mawrth 2013, fe nododd yr Heddlu fod yr amodau ychwanegol mewn perthynas i TCC a goruchwylwyr drysau wedi bod yn hynod effeithiol yn sicrhau fod yr eiddo yn cydymffurfio gyda'r amcanion Trwyddedu.

## DILYSRWYDD Y CAIS

Mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon fod tystiolaeth ddigonol fod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf Drwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol ac felly yn ddilys. Oherwydd bod sylwadau sydd yn berthnasol i'r amcanion trwyddedu wedi ei wneud ar y cais; fe gyflwynir y cais er ystyriaeth yr Is - Bwyllgor hwn.

Gweler y tabl amgaeedig am fanylion yr oriau arfaethedig.

| Trwydded Presenol/Current Licence | Trwydded Arfaethedig/Proposed Licence |
|---|---|
| **Oriau Agor / Opening Hours:** | **Oriau Agor / Opening Hours:** |
| Dydd Llun/Monday 23:00 – 03:00 | Dydd Llun/Monday 23:00 – 03:00 |
| Dydd Mawrth/Tuesday 23:00 – 03:00 | Dydd Mawrth/Tuesday 23:00 – 03:00 |
| Dydd Mercher/Wednesday 23:00 – 03:00 | Dydd Mercher/Wednesday 23:00 – 03:00 |
| **Dydd Iau/Thursday 23:00 – 03:00** | **Dydd Iau/Thursday 23:00 – 03:30** |
| Dydd Gwener/Friday 23:00 – 03:30 | Dydd Gwener/Friday 23:00 – 03:30 |
| Dydd Sadwrn/Saturday 23:00 – 03:30 | Dydd Sadwrn/Saturday 23:00 – 03:30 |
| Dydd Sul/Sunday 23:00 – 03:00 | Dydd Sul/Sunday 23:00 – 03:00 |

| | |
|---|---|
| **Lluniaeth Hwyr y Nos/Late Night Refreshments** - Outdoors<br>Dydd Llun/Monday 23:00 – 03:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 23:00 – 03:00<br>Dydd Mercher/Wednesday 23:00 – 03:00<br>**Dydd Iau/Thursday 23:00 – 03:00**<br>Dydd Gwener/Friday 23:00 – 03:30<br>Dydd Sadwrn/Saturday 23:00 – 03:30<br>Dydd Sul/Sunday 23:00 – 03:00 | **Lluniaeth Hwyr y Nos/Late Night Refreshments** - Outdoors<br>Dydd Llun/Monday 23:00 – 03:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 23:00 – 03:00<br>Dydd Mercher/Wednesday 23:00 – 03:00<br>**Dydd Iau/Thursday 23:00 – 03:30**<br>Dydd Gwener/Friday 23:00 – 03:30<br>Dydd Sadwrn/Saturday 23:00 – 03:30<br>Dydd Sul/Sunday 23:00 – 03:00 |

**Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu**

Fe welir o'r cais nad yw'r ymgeisydd yn cynnig unrhyw fesurau ychwanegol i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu i'r hyn sydd eisoes yn ymddangos ar amodau'r drwydded sef -

- Peidio caniatáu i gwsmeriaid fwyta i mewn yn yr eiddo ar ôl 8 yr hwyr
- Teledu Cylch Cyfyng
- Cyflogi goruchwylwyr drysau sydd wedi eu cofrestru gyda'r Awdurdod Diwydiant Diogelwch
- Goleuo digonol a diffoddwyr tân
- Sicrhau nad oes sbwriel tu allan i'r eiddo
- Dim cyflenwi nwyddau yn hwyr yn y nos neu fuan yn y bore

Gweler manylion llawn y mesurau a argymhellir yn adran **M** o'r cais

**YMGYNGHORIAD**

Fe ymgynghorwyd ar y cais, ac fe dderbyniwyd ymateb gan Heddlu Gogledd Cymru. Nid yw'r Heddlu yn gwrthwynebu'r bwriad i gyflogi Goruchwylwyr drysau o hanner nos ymlaen ar benwythnosau a nos Sul Gwyl y Banc
Nid yw'r Heddlu yn cefnogi bwriad yr eiddo i agor hanner awr yn ychwanegol ar nos Iau.

**ARGYMHELLIAD**

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y cais yn unol â'r uchod â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003; a Datganiad o Bolisi Trwyddedu'r Cyngor.